

Adnodd 1: Cofnod arsylwi sy'n seiliedig ar farn: GChDDP

Ar 4/10/21, fe wnes i gyfarfod â Gabby i'w harsylwi'n gweithio gyda phlant.

Fe wnes i arsylwi eich bod yn gweithio'n fedrus, yn dilyn y weithdrefn iechyd a diogelwch ac yn defnyddio gweithdrefnau'n effeithiol wrth wneud y canlynol:

- Golchi dwylo
- Defnyddio a gwaredu cyfarpar diogelu personol
- Defnyddio symud a chodi cyfarpar
- Cwblhau a gwirio cofnodion ac adrodd i'ch goruchwyliwr

(Uned 200 DD5)

Gabby, gwnaethoch ddangos ac esbonio eich gwybodaeth am weithdrefnau tân. Sylwais eich bod yn sicrhau nad oedd allanfa dân wedi'i rhwystro a bod y plant yn cael mynediad rhydd o'r ystafell cyn-ysgol i'r ystafell wydr ar gyfer chwarae anniben. Ni chawsoch eich annog i wneud hyn a nodais eich bod yn clirio manau ar gyfer mynediad chwarae i blant a'r un llif rhydd i'r awyr agored. Nid oedd angen eich annog wrth i chi glirio manau chwarae a'u paratoi i blant allu gweithio'n annibynnol. Drwy gydol hyn, nid oedd angen i arweinydd eich lleoliad cyn ysgol eich annog na'ch atgoffa sy'n dangos gwelliant yn eich gallu i ddilyn gweithdrefnau ar gyfer gweithio'n ddiogel i oedolion a phlant.

(UNED 200 DD2/DD1)

Roedd eich ymarfer a'ch cyfathrebu â phlant yn gadarnhaol ac yn dda i'w gweld. Gwnaethoch yn siŵr eich bod ar lefel y plentyn i gael cyswllt llygaid, bod eich llais yn cael ei gymedroli i lefel y sŵn yn yr ystafell a'ch bod yn annog pob plentyn i ymateb gan sicrhau eich bod yn rhoi lle iddynt wrando, i feddwl ac i siarad yn ôl wrth i chi wrando'n barchus. Roedd yn braf nodi sut yr oeddech yn annog dewis plant o weithgaredd drwy gyfathrebu ar lafar ac yn ddi-eiriau. Da iawn!

(UNED 202 DD1) (UNED 204 DD3)

Yn dilyn byrbryd ac wrth newid plant, gwnaethoch y canlynol:

- defnyddio cyfarpar diogelu personol yn unol â pholisi
- cofnodi newidiadau cewynnau'n briodol
- cofnodi cymeriant bwyd yn briodol a nodi newid mewn archwaeth ar gyfer un ferch fach sy'n dangos gwybodaeth dda am gymeriant a threfn arferol

Roeddech yn trin pob plentyn ag urddas bob amser ac yn cyfathrebu'n siriol ac yn gefnogol gyda phob plentyn wrth newid cewynnau. Sylwais eich bod yn newid eich dull cyfathrebu i gyd-fynd ag anghenion pob plentyn ac, unwaith eto, eich bod wedi caniatáu digon o amser i ymateb. Mae hyn yn newid cadarnhaol o 2 fis yn ôl pan oedd yn ymddangos bod newid cewynnau yn cael ei hystyried yn dasg ddiflas i'w chwblhau, yn hytrach nag amser pwysig gyda'r plentyn.

Barn

Arsylwad da sy'n dangos dealltwriaeth gynyddol o'ch dyletswydd i iechyd a diogelwch a phwysigrwydd defnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir yn ystod y ddwy sesiwn. Rydych yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion plant, dull cadarnhaol o gwblhau cofnodion yn gywir (er bod angen i ni weithio ychydig yn fwy ar gywirdeb ysgrifennu yn hytrach na chynnwys – cam mawr ymlaen) a dull llawer mwy annibynnol o ran tasgau arferol a'ch lle wrth gyfrannu at y tîm. Mae eich dealltwriaeth o'r cydbwysedd rhwng dewis plant a gweithgaredd a arweinir gan oedolion yn dod yn glir ac roeddwn yn falch o weld pa mor dda yr oeddech yn gosod yr amgylchedd i ganiatáu i hynny ddigwydd.

Gwnaethoch esbonio bod plant yn hoffi dewis annibynnol a symud llif rhydd a gwnaethoch esbonio'r camau a gymerwyd y bore yma wrth osod y lleoliad i hynny ddigwydd. Roedd hynny'n ddefnyddiol iawn o ran gallu dod i benderfyniad ynglŷn â'ch dealltwriaeth o pam yr ydych yn gwneud yr hyn a wnewch a dysgais gymaint am bwy yr oeddech yn cynllunio'r amgylchedd ar eu cyfer, yn ogystal â'r hyn yr oeddech yn cynllunio'r amgylchedd ar ei gyfer.

Roedd hon yn sesiwn gadarnhaol iawn heddiw. Da iawn wir. Mae'r pellter a symudwyd o ran dealltwriaeth yn arwain eich gweithredoedd a'ch gweithgarwch gwaith yn dda iawn. Mae eich goruchwyliwr hefyd wedi adrodd am hyn. Da iawn chi, mae'r ymdrech rydych chi wedi'i gwneud yn talu ar ei gorau. Daliwch ati!

Paratoi ar gyfer ein cyfarfod nesaf ar 15 Rhagfyr:

Byddwn yn mapio'r pethau yr wyf wedi'u harsylwi ac rydym wedi siarad amdanynt gyda'n gilydd i Amcanion Asesu – yna defnyddiwch yr Amcanion Asesu i nodi unrhyw ddarnau y mae angen eu hehangu.

1. Myfyrio ar yr arsylwi a'r adborth ym mis Gorffennaf (am bwysigrwydd cyfathrebu cadarnhaol a pham nad ydym yn cario ein ffonau pan fyddwn gyda'r plant). Meddyliwch am y gwaith rydych chi wedi'i wneud ar gamau datblygiad plant a gwnewch rai nodiadau ar yr hyn rydych chi'n ei wneud yn wahanol nawr a sut rydych chi'n eu helpu i ddatblygu eu sgiliau iaith, eu hyder a'u hunan-barch fel y gallwn drafod hyn.
2. Esboniwch y rhesymau dros fonitro maeth gan roi enghreifftiau o ddau blentyn
3. Sylwais ar ddefnydd da o Gymraeg achlysurol yn eich gwaith gyda phlant. Gwnewch ychydig o nodiadau ynghylch pam mae hynny'n bwysig i blant o ran datblygiad iaith a budd diwylliannol a byddwn yn defnyddio hyn fel sail ar gyfer trafodaeth yn ystod fy ymweliad nesaf
4. Nodwch yn ofalus yr angen i ysgrifennu'n gywir (sillafu a defnyddio priflythrennau). Byddaf yn anfon ychydig o awgrymiadau a hoffwn i chi dreulio peth amser yn adolygu eich nodiadau yn y llyfrau plant/rhieni. Bydd hyn yn eich helpu i 'broffesiynoli' ymhellach eich nodiadau i rieni a chofnodion a bydd yn werth yr ymdrech!

Byddaf yn eich arsylwi eto ar 15/12/21 am 2pm – gwnewch yn siŵr bod eich ffolder hyfforddi gennych yn barod i'w hadolygu, byddaf yn edrych ar eich tystysgrifau i weld a oes angen adnewyddu unrhyw rai. Hoffwn i chi ddweud wrthyf am y cyrsiau yr ydych wedi'u mynychu, yr hyn yr ydych wedi'i ddysgu ganddynt a pha rai sydd wedi bod yn fwyaf defnyddiol. Hefyd, dylem edrych ar y safleoedd gorau i'w defnyddio ar gyfer ymchwil gan nad yw rhai yn ddibynadwy.

Adnodd 2: Myfyrio dysgwyr (myfyrio 2–3 oed)

(UNED 300 DD1/2/3) (UNED 301 DD1/2) (UNED 305 DD2) (UNED 310 DD1/2) (UNED 311 DD2/3) (UNED 309 DD1/2/4)

Handa's Surprise – Cyflwynais y gweithgaredd hwn yn frwdfrydig a gosodais yr olygfa drwy ddefnyddio geiriau fel dyfalu a syrpreis. Gwahoddwyd y plant i ymuno â mi yn hytrach na bod disgwyl iddynt gymryd rhan a gwnaeth hyn helpu gyda'u lefelau cyfranogiad. Mae Brunner a Vygotsky yn awgrymu fod creadigrwydd a dychymyg plant yn cael eu hystyngtu yn llawnach pan fyddant yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau a phrofiadau ac felly roedd darparu masgiau wyneb a basged, archwilio a thorri'r ffrwythau a gwneud y smwddi i gyd yn llwyddo i hybu hyn. Dangosodd y plant eu mwynhad drwy fynychu a chanolbwyntio ar bob cam o'r gweithgaredd; drwy gymryd rhan mewn trafodaeth a chynnig eu mewnwelediadau a'u barn; drwy naws a chyflymder eu rhyngweithio â mi a'i gilydd a thrwy ddefnyddio cyfathrebu di-eiriau fel mynegiannau'r wyneb ac iaith y corff agored ac yn gyffredinol eu parodrwydd i gymryd rhan yn y gweithgaredd nes iddo ddod i ben. Mae mwynhad yn y grŵp oedran hwn yn aml yn amlgu ei hun mewn sgwrsio a thrafod llawn cyffro, bod yn awyddus i gael eu clywed a derbyn sylw – roedd pob un o'r rhain yn amlwg yn ystod y gweithgaredd hwn. Wrth fyfyrto, y rhan leiaf pleserus o'r gweithgaredd oedd y gwneud wynebau a dewisodd rhai plant symud ymlaen ar y cam hwn. Roedd yn agos at amser byrbryd ac roedd rhai plant yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio neu'n dymuno chwarae mewn mannau eraill. I'r plant a oedd yn weddill, roedd cyflwyno'r peiriant smwddi yn rhoi ail ysgogiad a oedd yn cynnal ac yn ysgogi'r gweithgaredd unwaith eto. Er bod A yn absennol o'r agwedd torri i fyny, ail-ymgysylltodd eto i wneud y smwddi.

Roedd ymatebion tebyg yn amlwg yn ystod y gweithgaredd awyr agored. Roedd mwynhad y plant yn golygu bod 2 ohonynt yn ceisio cymryd rheolaeth o'r gweithgaredd ei hun ac yn ymddiried yn of i'w cynorthwyo i wneud hyn. Mae hyn yn awgrymu bod y plant wedi cyflawni ymdeimlad o berthyn ac ymddiriedaeth ac yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad a gyda mi. Mae Maslow yn awgrymu fod pobl yn gallu chwarae, ymlacio a mwynhau eu hunain yn well os yw eu hanghenion seicolegol a diogelwch yn cael eu bodloni'n llawn.

Roedd cyfnod canolbwyntio'r plant yn cael ei gynnal yn dda gan wahanol gamau a llif y gweithgareddau. Prin oedd yr achosion o dynnu sylw ac roeddent yn gysylltiedig ag achosion o gymryd tro, ffiniau a dewisiadau. Roeddwn i'n defnyddio technegau tynnu sylw ac ymestyn – e.e. Siom A am beidio â bod yn eliffant – tynnais sylw at y ffaith bod parotiaid yn lliwgar; Anogais y plant i archwilio priodweddau a gwadeddau'r ffrwythau gan gynnig cyfle i ddatblygu sgema newydd. Yn normadol rhwng 2½ a 5 oed, mae sylw a chyfnod canolbwyntio plentyn yn ymestyn o 2 funud i 25munud, yn enwedig os yw oedolyn â

diddordeb yn bresennol. Dylai'r plentyn 4 oed arferol allu ymdopi â rhwng 10-15 munud os yw'n gweithgaredd diddorol/cyffrous.

Yn ystod y gweithgaredd awyr agored, roedd ymddangosiad cath yn tynnu ychydig ar sylw'r plant, ond roeddwn yn gallu ymateb yn briodol, gan barchu eu diddordeb tymor byr, ac roeddent yn ôl ar y dasg yn gyflym.

Rwyf bob amser yn ceisio rhyngweithio â'r plant ar eu cyflymder a'u lefel diddordeb nhw. Mae Brunner yn awgrymu fod datblygiad gwybyddol yn dibynnu ar rhyngweithio a hunangychwyn (*self-initiation*) ac y dylid osgoi dull rhy ffurfiol:

"ystyr hunangychwyn (*self-initiation*) yw caniatáu i'r baban neu'r plentyn fod mewn rheolaeth o beth i'w wneud... sut i'w wneud a gyda phwy i'w wneud..." (S.Smids: Cyflwyno Brunner 2011: t.39)

Mae hyn yn amlwg yn ethos chwarae rhydd y lleoliad ac yn fy ymarfer o ddydd i ddydd. Roedd Handa's Surprise wedi'i strwythuro'n fwriadol, ond roedd y gweithgaredd awyr agored yn darparu amgylchedd mwy hyblyg i'r plant fynegi eu hunain, bod yn greadigol, i gymryd risgiau ac i ddatrys problemau. Roedd hunangychwyn (*self-initiation*) yn amlwg pan ofynnodd y ddau blentyn am yr arwyddion, pan ddenodd y gath sylw a phan negodwyd y planc gan A. Fe wnes i gymeradwyo, cydnabod a gwobrwyo'r holl archwiliadau hyn, fodd bynnag, ar ôl myfyrio, dylwn fod wedi bod yn fwy parod i gymryd rhan yn ymholiad y plant am y gath.

Drwy gydol yr asesiad, fe wnes i leisio ac atgyfnerthu cysyniadau mathemategol fel i fyny/i lawr; dros/o dan; mwy/llai; bach/mawr; llawn/gwag. Anogais ddeallusrwydd emosiynol drwy annog empathi a chydymdeimlad a thrwy labelu teimladau – hapus/trist; a thrwy ddefnyddio technegau gwrandio gweithredol (adlewyrchu'n ôl; cynnal cyswllt llygaid; bod ar lefel y plant). Roedd iaith fy nghorff yn agored a chroesawgar – gwenais a chadwais gyswllt llygaid wrth groesawu'r plant i'r lleoliad, wrth eu gwahodd i chwarae gyda mi, wrth ymateb i'w hanghenion am ofal a chymorth (defod foreol A). Siaradais â thôn dawel a oedd yn cynnig cysur, a defnyddiais ddull cyffwrdd pan oedd plant yn ofidus (pryder gwahanu J a bys poenus F) ac adlewyrchais draw a goslef eu lleisiau pan oeddent yn gyffrous neu'n holi (esgidiau newydd K a pharti Pen-blwydd E). Defnyddiais iaith syml ac iaith gyfarwyddiadau wrth atgoffa'r plant am ymddygiad a ffiniau ac roeddwn yn fodel rôl cadarnhaol wrth annog moesau da a pharch e.e. os gwelwch yn dda a diolch

Roedd fy rhyngweithiadau a'm technegau cyfathrebu fel yr amlinellir uchod yn gweithio i feithrin datblygu iaith. Mae'r dull hwn yn adeiladu ar y safbwyntiau a gynigiwyd gan Chomsky a oedd yn credu bod plant yn naturiol wedi'u 'rhaglennu' i ddefnyddio a datblygu iaith ac yn meddu ar LAD (dyfais caffael iaith) (*language acquisition device*); Credai Skinner mai atgyfnerthu cadarnhaol oedd yr allwedd ac mai rôl yr oedolyn oedd gwrandio a chywiros ymdrechion plentyn i gyfathrebu. Fodd bynnag, mae Brunner yn awgrymu mai rôl yr oedolyn â diddordeb oedd darparu LASS (System Cymorth Caffael Iaith) (*Language Acquisition Support System*) i feithrin datblygiad iaith yn ystod arferion a defodau dyddiol ac wrth chwarae.

Cynhwysais y plant drwy fanteisio ar fy ngwybodaeth am ble maent arni yn ddatblygiadol a thrwy ddeall eu hanghenion unigryw. Er enghraifft, o ganlyniad i hyfforddiant diweddar am ddewis peidio â siarad (*selective mutism*), mae wedi cynyddu fy ymwybyddiaeth o'r anhwylder hwn ac o ganlyniad gwn fod yn rhaid i mi geisio cael gwared ar unrhyw bwysau neu straen wrth geisio annog cyfathrebu â phlentyn sy'n ei chael yn anodd cyfathrebu. Sicrheais fod gennyf ddigon o adnoddau fel bod pob plentyn a gymerodd ran yn cael cyfle cyfartal i wneud hynny ac ar eu telerau eu hunain. Fe wnes i sicrhau fod darpariaeth i gynnwys A er ei bod ychydig yn siomedig yng nghanlyniad yr ymyriad hwn (masg parot yn hytrach nag eliffant); Ceisiais sicrhau fy mod yn ennyn ymatebion ar eu cyflymder nhw a bod y plant yn cael eu trefnu yn unol â lefelau hyder, y gallu i glywed a deall ac mewn perthynas â chyfnod canolbwytio

Rydym yn defnyddio system band i helpu plant i gymryd tro ac i wneud y defnydd gorau o'r holl weithgareddau, adnoddau a chyfarpar sydd ar gael. Drwy gydol y dydd, fe wnes i atgoffa'r plant i gymryd tro ac i wrando'n dda. Roedd fy mhrif strategaeth yn rhagweithiol o ran ei dyluniad ac fe'i hysbyswyd gan fy ngwybodaeth am bersonoliaethau ac anghenion unigryw'r plant. Ar y cyfan, defnyddiais dulliau tynnu sylw ac atgyfnerthu cadarnhaol (Skinner) i annog ymddygiad derbyniol a pharchus. Mae hyn yn cyd-fynd â'n polisi Rheoli Ymddygiad ac yn ymarfer a argymhellir ar gyfer yr ystod oedran hon o blant

Myfyrio Lefel 2 – plant 3–7 oed

Uned 200(DD1/DD2/DD3/DD5) Uned 201 (DD1/DD2) Uned 202 (DD1) Uned 203 (DD1) Uned 206 (DD1/2/3/4) Uned 310 (DD1/2)

Heddiw, cwblhaodd fy ngrŵp gweithwyr allweddol weithgaredd awyr agored gan ddefnyddio defnyddiau y gellir eu hailgylchu y gwnaethom eu canfod yn ein hystafell. Cynlluniais y gweithgaredd i annog fy ngrŵp i archwilio ac ymchwilio i'r ystafell i ddod o hyd i gyfarpar ac adnoddau y gallem eu defnyddio i adeiladu cuddfan yn ein hamgylchedd awyr agored. Esboniais yn llawn i'm grŵp y gweithgaredd a'r hyn a ddisgwylid ganddynt. Cynlluniais y gweithgaredd gan ddefnyddio fy nhempled cynllunio meithrinfa, mae fy ngrŵp gweithwyr allweddol wedi bod yn gweithio tuag at ddefnyddio lle i greu siapiau ac adnoddau newydd. Dyma un maes datblygu ar gyfer pob plentyn yn fy ngrŵp. Bydd y gweithgaredd hwn yn caniatáu i bob plentyn adnabod siapiau gwahanol i adeiladu cuddfan gyda'i gilydd. Bydd hefyd yn caniatáu i'r grŵp fod yn greadigol a phrofi gwahanol ddefnyddiau, fel bod y guddfan yn sefyll ar i fyny. Gwnes yn siŵr bod y rhestr wirio awyr agored wedi'i chwblhau a bod gan bob plentyn ddillad addas i fynd allan yn yr awyr agored. Roedd y tywydd yn sych ond ddim yn rhy oer.

Pan ddywedais wrth y grŵp am y gweithgaredd, roeddent yn llawn cyffro ac ni allent aros i ddechrau arni. Mynegodd Plentyn A nad oedd am gymryd rhan a byddai'n well ganddo eistedd a chwarae gweithgaredd ar yr I pad. Cydnabyddais gais y plentyn ac esboniais y gall bod yn yr awyr agored wneud i ni deimlo'n well ac y gallwn losgi rhywfaint o egni. Roedd Plentyn A yn drist ac nid oedd am ymuno. Addasais y gweithgaredd i gynnwys Plentyn A, gofynnais iddo ymchwilio i wahanol fathau o guddfannau ar y rhyngwyd gan ddefnyddio ei I pad a dangos i weddill y grŵp. Cytunodd Plentyn A i ddod allan i'r awyr

agored i weithio ar y gweithgaredd hwn. Canmolais ac anogais Blentyn A am ddod o hyd i wahanol fathau o guddfannau. Ar ôl 10 munud, dechreuodd gymryd rhan yn y gweithgaredd a defnyddiodd ei l pad i awgrymu rhai syniadau. Wrth fyfyrrio, dylwn fod wedi dechrau'r gweithgaredd drwy ddefnyddio'r l pad i edrych ar wahanol syniadau ac yna symud i'r awyr agored. Ond, doeddwn i ddim eisiau i'r gweithgaredd amharu gormod ar weddill y plant yn y grŵp.

Caniateais i'r plant gymryd risgiau a rhoi cynnig ar adeiladu'r guddfau gan ddefnyddio gwahanol adnoddau. Fe wnes i gyfathrebu'n glir gyda grŵp, gwneud yn siŵr fy mod yn defnyddio iaith syml ac fe wnes i fynd i lawr i'w lefel nhw wrth siarad â nhw. Roeddwn bob amser yn dangos moesau da ac yn sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus wrth gwblhau'r gweithgaredd.

Wrth arsylwi'r gweithgaredd, nodais fod rhai o'r grŵp yn ei chael yn anodd disgrifio'r defnyddiau a gweadeddau'r adnoddau. Roeddent yn canfod cyfarwyddo eraill i adeiladu'r guddfau yn heriol ar adegau. Caniateais i'r grŵp gydweithio'n rhydd gydag ysgogiadau gennyf pe bai angen.

Ymunodd fy nghydweithiwr hefyd â'r gweithgaredd pan oedd y guddfau bron wedi'i hadeiladu. Rhoddais wybodaeth i'm nghydweithiwr o ran yr hyn yr oeddem yn ei wneud a phrif nodau'r gweithgaredd. Roedd hi'n hoffi'r gweithgaredd ac yn meddwl ei fod yn syniad da gweithio tuag at fy nod o ddatblygu'r ymdeimlad o siâp a phwysau gyda defnyddiau. Awgrymodd hefyd fod cydbwysedd a chydymud yn sgil gwerthfawr arall sy'n cael ei ddangos yn y gweithgaredd hwn. Rwy'n cytuno, ar ôl myfyrrio, y gallwn fod wedi cynnwys hyn yng nghynllun fy nghweithgaredd.

Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd, sicrhais fod pob plentyn yn mynd yn ôl dan do. Fe wnaethon nhw dynnu eu cotiau a'u siwtiau gwlyb. Defnyddiodd pob un o'r plant y toiled a golchi eu dwylo yn barod ar gyfer amser byrbryd. Roeddwn i'n paratoi byrbryd ar gyfer fy ngrŵp heddiw. Mae fy meithrinfa yn hybu bwyta'n iach ym mhob byrbryd a phryd bwyd. Mae'r holl fyrbrydau a diodydd yn iach i hybu bwyta'n iach a dewisiadau byrbryd da. Heddiw, fe wnes fara cracer (*crackerbread*)i gyda ham a chaws meddal i fy ngrŵp. Nid oes alergeddau o fewn fy ngrŵp. Pe bai unrhyw alergeddau'n cael eu nodi, byddent yn cael eu nodi'n glir yn ffolder y plentyn ac yn cael eu harddangos yng nghegin y feithrinfa. Mae pob gweithiwr allweddol yn gwybod am alergeddau. Gwnes yn siŵr bod fy ardal waith yn lân a defnyddiais chwistrell ddiheintio i sychu'r arwynebau cyn paratoi.

Roedd Plentyn B yn ddigalon yn ystod amser byrbryd, roedd hi eisiau cysur a chefnogaeth, roedd hi'n cwyno am glust wael ac nid oedd yn teimlo'n dda iawn. Siaradais â'r plentyn a ddywedodd fod ei chlust ac ochr ei hwyneb yn brifo. Esboniodd ei bod wedi dweud wrth ei mam y bore yma a'i bod wedi cael rhywfaint o feddyginiaeth. Mae'r plentyn fel arfer yn hapus ac yn gwenu felly roedd yn anarferol iddi fod yn ddigalon. Fe wnes i roi gwybod i arweinydd fy ystafell a gytunodd y dylem ffonio adref a rhoi gwybod iddynt. Fe es i â'r plentyn i'r gornel dawel, ei gwneud yn gyfforddus ac aros am gyfarwyddiadau pellach gan arweinydd yr ystafell. Wrth fyfyrrio, roedd Plentyn B wedi bod yn dawel iawn am y rhan fwyaf o'r dydd. Mae hi fel arfer yn hapus ac yn mwynhau bod yn brysur. Dylwn fod wedi sylwi ar y newid hwn mewn ymddygiad.